I: Riant/Gwarcheidwad

Fy nghyf: My Ref:	GD/TM	Eich Cyf: Your Ref:		Dyddiad: Date:	3/3/21

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Mae'n siŵr eich bod yn gwybod bod y Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi ar 5 Chwefror 2021 y dylai disgyblion y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd i'r ysgol o 22 Chwefror. Mae holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen bellach wedi dychwelyd yn llwyddiannus i'n hysgolion yn Rhondda Cynon Taf. Wrth i nifer yr achosion o'r Coronafeirws yn ein cymunedau barhau i ostwng, mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi cynlluniau newydd heddiw. O 15 Mawrth ymlaen bydd ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed, ysgolion arbennig ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion yn darparu addysg ar eu safleoedd ar gyfer:

- Pob disgybl oed cynradd
- Disgyblion sy'n agored i niwed
- Plant gweithwyr allweddol
- Disgyblion sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau hanfodol
- Disgyblion Blynyddoedd 11 a 13

Bydd hyblygrwydd hefyd yn cael ei gynnig i ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion gynnig darpariaeth addysg ar y safle i ddisgyblion eraill, gan gynnwys y rheiny ym Mlynyddoedd 10 a 12 a allai hefyd fod yn sefyll arholiadau neu asesiadau'r haf yma. Yn ogystal â hyn, bydd modd trefnu hefyd i ddisgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 fynychu'r ysgol ar gyfer sesiynau ailgydio wyneb yn wyneb cyn gwyliau'r Pasg. Bydd y cyfle i ailgydio yn canolbwyntio ar gefnogi lles a pharatoi at ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y Pasg.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser ar ôl gwyliau'r Pasg. Bydd y dystiolaeth feddygol fwyaf diweddar ar y pryd yn llywio'r cynlluniau yma.

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Bydd gydag ysgolion rywfaint o hyblygrwydd i ddatblygu cynllun ar gyfer disgyblion i ddychwelyd yn raddol a byddan nhw'n cysylltu â chi cyn bo hir i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer lleoliad eich plentyn. Bydd cyfleusterau'r ysgol, maint y grwpiau blwyddyn a'u hasesiadau risg manwl yn llywio'r cynlluniau yma. Serch hynny, bydd y trefniadau canlynol yn berthnasol i bob ysgol yn Rhondda Cynon Taf

- Bydd holl **ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen** yn parhau i fynychu'r ysgol drwy gydol y broses raddol o gyflwyno grwpiau blwyddyn newydd yn ôl i'r ysgol
- Rhaid i drefniadau'r broses raddol o ddisgyblion **Cyfnod Allweddol 2 a Blynyddoedd 11 a 13** yn dychwelyd i'r ysgol ddechrau ar 15 Mawrth 2021.
- Bydd disgyblion **Blynyddoedd 7, 8 a 9** wedi cael o leiaf un sesiwn ailgydio yn yr ysgol cyn gwyliau'r Pasg lle mae hyn yn bosib
- **Bydd disgyblion agored i niwed** a **phlant gweithwyr allweddol** yn parhau i dderbyn addysg wyneb yn wyneb yn yr ysgol hyd nes bod eu grŵp blwyddyn wedi dychwelyd i'r ysgol
- Bydd darpariaeth dysgu o bell yn parhau ar gyfer **disgyblion sy'n hunan-ynysu** a'r **grwpiau blwyddyn hynny sydd ddim yn cael eu haddysgu wyneb yn wyneb** yn yr ysgol

Bydd ysgolion uwchradd yn canolbwyntio ar sicrhau bod disgyblion Blynyddoedd 11 a 13 yn cael eu hasesu'n briodol at ddibenion eu harholiadau neu gymwysterau. Bydd dysgu o bell yn parhau i'r disgyblion a'r grwpiau blwyddyn hynny sydd ddim yn derbyn addysg wyneb yn wyneb. Rydyn ni'n cydnabod bod heriau penodol yn ymwneud â'r sefyllfa yma wrth i ddysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol gynyddu. Bydd dysgu o bell hefyd yn parhau ar gyfer disgyblion sy'n hunan-ynysu sydd ddim yn gallu mynychu'r ysgol am eu bod yn gwarchod, wedi'u nodi'n gyswllt agos ag achos wedi'i gadarnhau neu â diagnosis o Covid-19 eu hunain.

O 15 Mawrth 2021, bydd nifer y lleoedd ar gyfer y **Clwb Brecwast** yn parhau i fod yn gyfyngedig er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol a rhoi mesurau hylendid a diogelu effeithiol ar waith. Felly, bydd modd i rieni/plant sydd eisoes wedi gwneud cais ac wedi sicrhau lleoliad yn llwyddiannus ar gyfer y Clwb Brecwast ym mis Rhagfyr 2020 ddefnyddio'r cyfleuster yma. Bydd proses ymgeisio newydd yn cychwyn ar 12 Mawrth 2021 ar gyfer darpariaeth Clwb Brecwast tymor yr haf o 12 Ebrill 2021 tan 20 Gorffennaf 2021. Bydd gwybodaeth bellach yn dilyn maes o law.

Bydd arweinwyr ysgolion yn diweddaru'u hasesiadau risg i adlewyrchu canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r broses raddol o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Mae gyda phob aelod o'r staff yr opsiwn o gael prawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos i sicrhau bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn ddiogel. Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion Blynyddoedd 10 i 13 gael yr un prawf ddwywaith yr wythnos gartref. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth a chanllawiau manwl ar hyn byddwn ni'n rhannu hyn gyda chi.

Bydd ysgolion yn gwneud y mwyaf o amseroedd cychwyn a gorffen am yn ail ac yn parhau i fod â chynlluniau cadarn ac ystod o fesurau ar waith i leihau unrhyw risgiau sy'n cael eu nodi yno. Rhaid i bob disgybl oed ysgol uwchradd barhau i wisgo gorchudd wyneb yn yr ysgol lle does dim modd cynnal pellter cymdeithasol (gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth).

Rwy'n siŵr eich bod i gyd wrth eich bodd bod eich plant yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl misoedd lawer o gyfyngiadau sylweddol. Mae'r cyfyngiadau yma'n parhau wrth gwrs, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn glynu wrthyn nhw o hyd yn ein cymunedau.

Diolch yn fawr am barhau i gefnogi'ch plentyn gyda'u dysgu.

Cofion cynnes,



Gaynor Davies
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant

RHONDDA CYNON TAF

To: Parent/Carer

Fy nghyf: My Ref:	GD/TM	Eich Cyf: Your Ref:		Dyddiad: Date:	3rd March 2021

Dear Parent/Carer,

As you will be aware the Education Minister confirmed on 5 February 2021 that foundation phase learners should return to school from 22 February. All learners in the foundation phase have now successfully returned to our schools in Rhondda Cynon Taf. As the number of coronavirus cases in our communities has continued to fall new plans have been announced by our Education Minister today. From the 15 March primary, secondary, all-through schools, special schools and PRUs will provide onsite education provision for:

- All primary aged learners
- Vulnerable learners
- Critical worker's children
- Learners undertaking essential exams or assessments
- Learners in Years 11 and 13.

Flexibility will also be offered to secondary schools, all-through schools and PRUs to provide access to the onsite education provision for other learners, including those in Years 10 and 12, who may also have been entered for qualifications this summer. In addition to this, arrangements will also be made to enable learners from Years 7, 8 and 9 to attend schools for face-to-face check-ins prior to the Easter break where at all possible. The opportunity to check-in will be focused on support for wellbeing and readiness for return to school after Easter.

It is anticipated that there will be a full return of learners to school following the Easter break and these plans will be informed by the most current medical advice available, at this time.

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Schools will have a degree of flexibility to develop a plan for the phased return of learners back into schools, and they will be in contact with you shortly to confirm arrangements for your child's setting. Their plans will be guided by the school facilities, the sizes of year groups and their detailed risk assessments. However, the following arrangements will apply to all schools in Rhondda Cynon Taf:

- All **foundation phase learners** will continue to attend school throughout the phased introduction of new year groups back in to school.
- Arrangements for the phased return of learners in **key stage 2, and Years 11 and 13** will commence on the 15 March 2021.
- Learners in **Years 7, 8 and 9** will have accessed at least one check-in on school premises prior to the Easter break, where at all possible
- **Vulnerable learners** and the **children of critical workers** will continue to access face to face education in school until their year group has returned to school.
- Remote learning will continue to be provided for **self-isolating learners** and those **year groups not accessing face to face learning** in school.

At secondary level, significant focus will be placed on ensuring appropriate assessment of learners in Years 11 and 13 for qualification purposes. Remote learning will continue for those learners and year groups not engaged in face to face learning, with an acknowledgment that this poses specific challenges as face to face learning in school increases. Remote learning will also continue for self-isolating learners that are unable to attend school due to shielding, close contact with a confirmed case or a Covid diagnosis.

From the 15 March 2021, the number of places for **Breakfast Club** will continue to be limited to ensure that social distancing and effective hygiene and preventative measures can be maintained. Therefore, the parents/children that have previously successfully applied and secured a placement for breakfast club in December 2020 will be able to access this provision. A new application process will commence on 12 March 2021 for summer term breakfast club provision from (12 April 2021–20 July 2021). Further information will follow in due course.

All Covid risk assessments will be updated by our school leaders to reflect current Welsh Government and local authority guidance on the phased return of learners to school. All staff have the option of participating in twice weekly lateral flow tests to keep everyone in the school community safe. There will be an opportunity for young people in Year 10 and above to also undertake twice weekly lateral flow testing in the home context. Further information and detailed guidance on this will follow as soon as this is made available by Welsh Government.

Staggered start and finish times will be maximised and schools will continue to have robust plans and a range of measures in place to mitigate any identified risks in a school setting. All secondary school aged learners will continue to require a face covering for use in school where social distancing cannot be maintained (including within the classroom).

I am sure that you are all delighted that your children are returning to school after many months of significant restrictions. These restrictions remain of course, and your continued support in adhering to these in our communities is hugely appreciated.

Many thanks for continuing to support you child with their learning.

With best wishes.

Gaynor Davies

Gaynor Davies
Director of Education and Inclusion Services